# Ymgynghoriad ar ddatblygu model gweithredu hylendid bwyd wedi'i foderneiddio yng Nghymru

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 3 Ebrill 2023
Dyddiad cau: 30 Mehefin 2023

## Crynodeb o ymatebion

Summary of stakeholder responses: Consultation on developing a modernised food hygiene delivery model in Wales

## Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i'r canlynol yn bennaf:

- Awdurdodau Cymwys – awdurdodau lleol
- busnesau bwyd a chyrff masnach y diwydiant
- sefydliadau sicrwydd trydydd parti ar gyfer diogelwch bwyd
- cyrff dyfarnu proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd yr amgylchedd a safonau masnach
- efallai y bydd gan Undebau Llafur a grwpiau arbenigol ddiddordeb hefyd.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Ym mis Medi 2022 cymeradwyodd Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd y prif bolisi a'r egwyddorion i werthuso llwyddiant ar gyfer FHDM wedi'i foderneiddio. Rydym nawr yn ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid ar y datblygiadau arfaethedig canlynol:

- cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd wedi'i foderneiddio
- dull wedi'i ddiweddaru sy'n seiliedig ar risg o ran yr amserlenni ar gyfer rheolaethau swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau bwyd newydd, ac ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol priodol
- mwy o hyblygrwydd yn y dulliau a'r technegau rheolaethau swyddogol y gellir eu defnyddio i bennu lefel risg sefydliad, gan gynnwys, lle bo'n briodol, asesu o bell
- ehangu'r gweithgareddau y gall swyddogion, fel Swyddogion Cymorth Rheoleiddiol, nad oes ganddynt 'gymhwyster addas' ar gyfer hylendid bwyd eu cyflawni, os ydynt yn gymwys.

## Diben yr ymgynghoriad

Ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid ar ddatblygiadau arfaethedig ar gyfer y FHDM wedi'i foderneiddio.

Mae’r datblygiadau arfaethedig yn destun ymgynghoriadau ar wahân yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Pecyn ymgynghori

Ymgynghoriad ar ddatblygu model gweithredu hylendid bwyd wedi’i foderneiddio – Cymru

PDF
Gweld Ymgynghoriad ar ddatblygu model gweithredu hylendid bwyd wedi’i foderneiddio – Cymru as PDF(Open in a new window) (444.32 KB)

## Sut i ymateb

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad i roi eich sylwadau. Gallwch ddefnyddio naill ai’r PDF rhyngweithiol neu’r ddogfen Word. Dylid anfon y ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad dros e-bost i hygienemodelreview@food.gov.uk.

Mae angen cyflwyno sylwadau a safbwyntiau erbyn 23:59 Dydd Gwener 30 Mehefin 2023.

PDF
Gweld Templed ymateb i'r ymgynghoriad model gweithedu hylendid bwyd (FHDM) - PDF as PDF(Open in a new window) (198.86 KB)
WORD
Gweld Templed ymateb i'r ymgynghoriad model gweithedu hylendid bwyd (FHDM) as Word(Open in a new window) (57.19 KB)

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

O fewn tri mis ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben, rydym yn anelu at gyhoeddi crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law a darparu dolen iddo o’r dudalen hon.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y ffordd rydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Os oes angen fformat mwy hygyrch o’r ddogfen hon arnoch, anfonwch fanylion i hygienemodelreview@food.gov.uk a byddwn yn ystyried eich cais.

Mae’r ymgynghoriad hwn wedi’i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Fawrhydi.

Os cynhyrchwyd Asesiad Effaith, mae wedi’i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm yn y ddogfen ymgynghori.

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.